# Datganiad Caethwasiaeth Fodern

2025

Cyhoeddwyd 10 Medi 2025

# Cynnwys

## Adran


1. Cyflwyniad ....................................................................................................3
2. Strwythur Sefydliadol a'r Gadwyn Gyflenwi ....................................................4
3. Polisïau .........................................................................................................6
4. Prosesau Diwydrwydd Dyladwy .......................................................................7
5. Asesu a Rheoli Risg ........................................................................................8
6. Hyfforddiant ................................................................................................10
7. Perfformiad ..................................................................................................11
8. Cymeradwyaeth ...........................................................................................12

# 1. Cyflwyniad

1.1 Nid ydym yn goddef caethwasiaeth na masnachu pobl yn ein busnes neu gadwyni cyflenwi. Rydym wedi ymrwymo i wella ein polisïau a'n harferion yn barhaus er mwyn chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â hyn.

1.2 Mae'r datganiad hwn yn nodi'r camau y mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) wedi'u cymryd i gael sicrwydd nad yw caethwasiaeth na masnachu pobl yn digwydd yn ei chadwyni cyflenwi na'i busnes, a'r camau a gymerwyd i liniaru'r risg hon.

1.3 Dyma bumed datganiad Ofcom sy'n adeiladu ar y datganiad a gyhoeddwyd gennym y llynedd. Dros y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar ymgorffori'r asesiad parhaus o risgiau posibl yn ein cadwyn gyflenwi yn ein prosesau busnes fel arfer.

# 2. Strwythur Sefydliadol a'r Gadwyn Gyflenwi

## Strwythur Sefydliadol

2.1 Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebu annibynnol y DU. Wedi'i sefydlu o dan Ddeddf y Swyddfa Cyfathrebiadau 2002, mae Ofcom yn gweithredu o dan nifer o Ddeddfau Seneddol a deddfwriaeth arall.

2.2 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn nodi mai prif ddyletswydd Ofcom yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu ac hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo'n briodol drwy hyrwyddo cystadleuaeth. Mae hyn yn sail i lawer o'r hyn a wnawn.

2.3 Cenhadaeth Ofcom yw gwneud i gyfathrebiadau weithio i bawb. Rydym yn rheoleiddio telathrebu llinell sefydlog a symudol, darlledu teledu a radio, post, y sbectrwm radio a ddefnyddir gan ddyfeisiau di-wifr, gwasanaethau fideo-ar-alw a sefydlwyd yn y DU, a diogelwch ar-lein o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023. Rydym yn helpu busnesau ac unigolion y DU i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebu a'u diogelu rhag triniaeth ac arferion niweidiol. Lle bo'n briodol, rydym yn hyrwyddo cystadleuaeth, buddsoddiad ac arloesedd fel sail ar gyfer cyflawni canlyniadau da i ddefnyddwyr.

2.4 Rydym yn awdurdod cyhoeddus annibynnol sy'n atebol i Senedd y DU a thrwy'r Llysoedd am ein dyletswyddau cyhoeddus, ac er mwyn cyflawni ein rôl yn effeithiol mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol â Llywodraethau'r DU a'r Llywodraethau datganoledig. Rydym yn darparu cyngor technegol i lywodraethau (er enghraifft, ein gwaith ynghylch gweithredu darparwr gwasanaeth cyffredinol band eang y DU) ac mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol o Lywodraeth y DU (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

2.5 Mae Ofcom yn cael ei ariannu gan ffïoedd gan y diwydiant ar gyfer rheoleiddio darlledu, rhwydweithiau cyfathrebu a gwasanaethau post. Rydym yn gweithio'n annibynnol, yn rhydd rhag dylanwad gwleidyddol.

## Cadwyn Gyflenwi

2.6 Mae Ofcom yn prynu ystod eang o wasanaethau a chyflenwadau y gwariwyd tua £80,000,000 arnynt yn 2024-25. Mae gennym tua 800 o gyflenwyr gweithredol ac oddeutu 300 o gontractau gweithredol a chytundebau fframwaith gweithredol a gefnogir gan y tîm Masnachol.

2.7 Mae dull rheoli contractau Ofcom yn cyd-fynd â'r Canllawiau Arferion Gorau o ran Rheoli Contractau traws-lywodraethol ac yn cael ei gefnogi gan offeryn graddio contractau Ofcom ei hun, sy'n categoreiddio contractau yn aur, arian neu efydd yn dibynnu ar eu gwerth a'u proffil risg. Mae pob contract dros 6 mis o hyd a sydd â chyfanswm gwerth £150,000 yn cael ei gategoreiddio. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd 95 o gontractau o fewn cwmpas y canllawiau hyn. Roedd gennym 5 contract aur,

20 o gontractau arian a 70 o gontract efydd. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r contractau hyn yn ôl categori gwariant. Mae'r mwyafrif o'r contractau yn gysylltiedig â gwasanaethau risg isel. Ystyrir bod yr holl gontractau sy'n weddill yn drafodaethol eu natur.

**Tabl 1: Dadansoddiad o gontractau yn ôl categori gwariant**

| Categori | Aur | Arian | Efydd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Ymchwil** | 0 | 3 | 24 | 27 (28%) |
| **TGCH** | 4 | 9 | 13 | 26 (27%) |
| **Gwasanaethau proffesiynol** | 0 | 3 | 7 | 10 (11%) |
| **Cysylltiedig â phersonél** | 0 | 3 | 6 | 9 (9%) |
| **Dysgu a datblygu** | 0 | 0 | 6 | 6 (6%) |
| **Cyfathrebiadau** | 0 | 0 | 4 | 4 (4%) |
| **Cyfleusterau** | 1 | 0 | 3 | 4 (4%) |
| **Arall** | 0 | 1 | 3 | 4 (4%) |
| **Gwasanaethau corfforaethol** | 0 | 1 | 2 | 3 (3%) |
| **Fflyd** | 0 | 0 | 2 | 2 (2%) |
| **Cyfanswm** | 5 | 20 | 70 | 95 (100%[1]) |

[1] Mae swm canrannau unigol yn llai na 100% oherwydd talgrynnu.

# 3. Polisïau

3.1 Mae cyfrifoldeb corfforaethol yn bwysig i ni fel cyflogwr, cwsmer ac fel rheoleiddiwr, ac mae gennym ystod o bolisïau sy'n ein cefnogi i liniaru risgiau caethwasiaeth fodern yn ein busnes a'n cadwyn gyflenwi.

## Polisïau Pobl

3.2 Mae ein polisïau a'n prosesau pobl yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac arfer da. Gyda'i gilydd, mae ein polisïau'n gwahardd unrhyw fygythiad o drais, aflonyddu a bygwth, goramser gorfodol, llafur plant, gwahaniaethu, atafaelu dogfennau adnabod gwreiddiol gweithwyr ac yn rhoi rhyddid i weithwyr derfynu eu cyflogaeth a rhoi mynediad at fesurau unioni, iawndal a chyfiawnder i ddioddefwyr caethwasiaeth fodern.

3.3 Rydym yn nodi'r safonau moesegol yr ydym yn eu disgwyl gan ein cydweithwyr yn ein Polisi Urddas a Pharch. Ein nod yw sicrhau ein bod yn creu amgylchedd gwaith diogel a chynhwysol i'n holl gydweithwyr sy'n rhydd o aflonyddu, bwlio ac erledigaeth, wedi'i ategu gan ddysgu gorfodol ar bynciau craidd i bob gweithiwr. Mae gennym bolisi Cwynion a pholisi Chwythu'r Chwiban, wedi'u cynllunio i roi llwyfan i'n cydweithwyr godi pryderon ynghylch unrhyw gamwedd neu arferion gweithio gwael.

3.4 Rydym yn darparu ystod eang o adnoddau i weithwyr i gefnogi eu lles meddyliol, corfforol ac ariannol, ac i helpu yn ystod cyfnodau o ansicrwydd a straen. Mae hyn yn cynnwys mynediad at Hwb Llesiant Ofcom, Rhaglenni Cymorth i Weithwyr a, lle bo angen, fynediad at gwnsela 24/7. Mae'r polisïau hyn ar gael i gydweithwyr ar ein mewnrwyd ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

3.5 Rydym yn mabwysiadau dull partneriaeth o ran cysylltiadau undebau. Mae gennym hefyd Fforwm Cydweithwyr mewnol sy'n cynnwys grŵp o weithwyr etholedig sy'n cwrdd â'r uwch-dîm rheoli yn rheolaidd i drafod materion sy'n ymwneud â gweithwyr.

## Polisïau Masnachol

3.6 Rydym yn defnyddio Nodyn Polisi Caffael Swyddfa'r Cabinet (PPN) 02/23 – Mynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth, yn wirfoddol, sy'n disodli PPN 05/19 o'r un enw. Rydym wedi defnyddio hwn fel sail ar gyfer gweithgarwch dros y 12 mis diwethaf yn ogystal â'n helpu i osod Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) i lywio gweithgarwch yn y dyfodol. Rydym yn defnyddio'r canllawiau hyn i bob contract aur, arian ac efydd i sicrhau dull cymesur.

3.7 Fe wnaethom hefyd barhau i gymhwyso PPN 06/20 yn wirfoddol - Ystyried gwerth cymdeithasol wrth ddyfarnu contractau llywodraeth ganolog. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i feini prawf gwerth cymdeithasol gael eu cymhwyso i bob contract sydd o fewn cwmpas Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 lle mae hyn yn gysylltiedig ac yn gymesur â phwnc y contract. Defnyddir Model Gwerth Cymdeithasol Swyddfa'r Cabinet i gefnogi hyn. Byddwn yn parhau i gymhwyso canllawiau cyfatebol dros y flwyddyn nesaf i gontractau newydd o fewn cwmpas Deddf Caffael 2023.

# 4. Prosesau Diwydrwydd Dyladwy

## Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015

4.1 Rydym yn Awdurdod Contractio o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a Deddf Caffael 2023. Ar gyfer ymarferion caffael sydd o fewn cwmpas y rheoliadau hyn, rydym yn defnyddio naill ai Holiadur Dethol (SQ) safonol Swyddfa'r Cabinet neu'r Holiadur Caffael Penodol (PSQ).[2] Mae'r ddau yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar gyflenwyr gadarnhau nad oes ganddynt unrhyw euogfarnau sy'n ymwneud â llafur plant nac unrhyw fathau eraill o fasnachu pobl a'u bod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfraith gymdeithasol a llafur. Mae hefyd yn ofynnol i dendrwyr gadarnhau a ydynt yn cydymffurfio â gofynion adrodd blynyddol adran 54 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 (lle bo'n berthnasol). Rydym yn gwirio hyn trwy ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu dolen i'w datganiadau cyhoeddedig neu drwy ddarparu copïau o'r dogfennau hyn.

4.2 Yn dibynnu ar natur y nwyddau neu'r gwasanaethau sy'n cael eu caffael, rydym yn ymgorffori cwestiynau cymesur am gyfrifoldeb corfforaethol mewn prosesau caffael.

## Telerau ac amodau

4.3 Rydym yn defnyddio ein telerau ac amodau safonol ein hunain ar gyfer contractau lle bynnag y bo modd. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr gydymffurfio â'r holl gyfreithiau, statudau a rheoliadau cymwys gan gynnwys Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ein hysbysu am unrhyw achos neu achos posibl o dorri'r amodau hyn yn eu cadwyni cyflenwi sy'n gysylltiedig ag unrhyw gontract Ofcom. Rydym hefyd yn gofyn am fynediad ar alw i'w hadeiladau, personél, systemau a chofnodion er mwyn gallu gwirio cydymffurfiaeth â'r amod hwn.

4.4 Os na ddefnyddir y telerau ac amodau hyn, rydym fel arfer yn defnyddio telerau ac amodau a ddatblygwyd gan sefydliadau prynu fel Gwasanaeth Masnachol y Goron sy'n cynnwys darpariaethau tebyg, neu bydd y tîm Masnachol yn negodi telerau pwrpasol, gyda chyngor cyfreithiol arbenigol.

[2] Mae'r Holiadur Penodol i Gaffael (PSQ) yn disodli'r SQ ar gyfer contractau a gaffaelir o dan Ddeddf Caffael 2023.

# 5. Asesu a Rheoli Risg

5.1 Mae Ofcom yn adolygu ei Bolisi Rheoli Risg yn flynyddol ac yn cydnabod yr angen i reoli ei risgiau'n effeithiol er mwyn cyflawni ei amcanion yn llwyddiannus. Mae'r ddogfen yn amlinellu agweddau allweddol polisi rheoli risg Ofcom i gynorthwyo’r Rheolwyr Gweithredol i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar risg a sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u hatebolrwydd a'u cyfrifoldebau am rheoli risg. Mae ein Polisi Rheoli Risg wedi’i gymeradwyo gan Fwrdd Ofcom, yn ogystal â Prif Weithredwr yn rhinwedd ei rôl fel y Swyddog Cyfrifyddu.

5.2 Mae arweinydd busnes ar gyfer pob contract, ac maent yn gyfrifol am reoli'r berthynas â'r contractwr. Mae'r timau Rheoli Risg a Masnachol yn darparu cyngor ac arweiniad lle nodir unrhyw risgiau.

5.3 Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i fabwysiadu dull systematig a chymesur o asesu ein cyflenwyr a'n cadwyni cyflenwi i nodi unrhyw risgiau o gaethwasiaeth fodern, gan ddilyn canllawiau 'Mynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth'. Byddwn yn parhau i asesu pob contract newydd ar yr un sail.

5.4 Lle mae contract wedi’i ddosbarthu fel risg ganolig neu uwch, gofynnwn i gyflenwyr gwblhau'r Offeryn Asesu Caethwasiaeth Fodern (MSAT) i ddarganfod mwy am y prosesau sydd gan y cyflenwr ar waith i nodi a mynd i'r afael â risgiau caethwasiaeth fodern yn eu cadwyni cyflenwi eu hunain.

## Canlyniadau mapio cadwyn gyflenwi

5.5 Yn y blynyddoedd blaenorol, rydym wedi asesu'r holl gontractau oedd ar waith yn aur, arian ac efydd. Eleni rydym wedi canolbwyntio ar asesu pob contract newydd o fewn y cwmpas gan ddefnyddio'r canllawiau i nodi'r nodweddion canlynol (meysydd risg):

- Math o ddiwydiant
- Natur y gweithlu
- Lleoliad y cyflenwr
- Cyd-destun gweithredol
- Math o nwyddau
- Model busnes neu gadwyn gyflenwi

5.6 Cyflwynir canlyniadau'r holl waith mapio cadwyni gyflenwi a gynhaliwyd yn y flwyddyn hon, a blynyddoedd blaenorol, yn y tabl isod:

**Tabl 2: Canlyniadau'r Ymarfer Mapio Cadwyn Gyflenwi**

| Categori | Aur | Arian | Efydd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Uchel (5-6 ardal risg wedi'u nodi)** | 0 | 0 | 0 | 0 (0%) |
| **Canolig (3-4 ardal risg wedi'u nodi)** | 1 | 0 | 1 | 2 (2%) |
| **Isel (1-2 ardal risg wedi'u nodi)** | 1 | 1 | 8 | 10 (11%) |
| **Isel iawn (0 ardal risg wedi'u nodi)** | 3 | 19 | 61 | 83 (87%) |
| **Cyfanswm nifer y contractau** | 5 | 20 | 70 | 95 (100%) |

5.7 Er nad yw nifer y contractau risg canolig neu uchel wedi newid yn ystod y 12 mis diwethaf, daeth un o'n contractau ar gyfer darparu gwasanaethau arlwyo i ben ac fe'i disodlwyd gan Gyflenwr newydd yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol. Roedd yn ofynnol i'r Cyflenwr newydd gwblhau'r MSAT. Rydym yn parhau i weithio gyda chyflenwyr presennol contractau risg ganolig i fonitro cynnydd tuag at weithredu'r argymhellion o MSATs blaenorol trwy weithgaredd rheoli contractau busnes fel arfer.

# 6. Hyfforddiant

6.1 Mae'n ofynnol i bob arbenigwyr masnachol sy'n gweithio yn y tîm Masnachol gwblhau hyfforddiant e-ddysgu a phrawf Caffael a Chyflenwi Moesegol CIPS yn flynyddol. Wedi'i ddatblygu gan y Sefydliad Caffael a Chyflenwi Siartredig ar gyfer gweithwyr proffesiynol caffael ar bob lefel, mae'r rhaglen a'r prawf yn galluogi'r swyddogaeth Fasnachol i fireinio sgiliau a gwybodaeth ac i ddangos ein hymrwymiad i gaffael moesegol a chadwyni cyflenwi cynaliadwy.

# 7. Perfformiad

## Cynnydd ers y llynedd

7.1 Y llynedd fe wnaethom ymrwymo i:

- Barhau i asesu pob contract aur, arian ac efydd newydd fel gweithgaredd busnes fel arfer;
- Ystyried cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o risgiau caethwasiaeth fodern gydag arweinwyr busnes sy'n gyfrifol am gontractau aur ac arian.

7.2 Ers hynny, rydym wedi:

- Asesupob contract aur, arian ac efydd a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf;
- Adolygu ein cod ymddygiad a'n polisi caffael cynaliadwy i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol. Byddwn yn parhau i adolygu'n flynyddol.

## Cynlluniau a Blaenoriaethau'r Dyfodol

7.3 Gan ein bod bellach wedi cyrraedd pwynt lle mae gweithgarwch i asesu risgiau caethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi yn rhan o'n prosesau busnes fel arfer, dros y flwyddyn nesaf byddwn yn:

- Parhau i asesu pob contract aur, arian ac efydd newydd fel gweithgaredd busnes fel arfer;
- Ystyried cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o risgiau caethwasiaeth fodern gydag arweinwyr busnes sy'n gyfrifol am gontractau aur ac arian.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)

7.4 Byddwn yn parhau i fesur llwyddiant ein dull gweithredu yn erbyn y canlynol:

- Nid oes unrhyw adroddiadau am unrhyw achosion o gaethwasiaeth fodern yn ein busnes na'n cadwyni cyflenwi;
- Mae ein staff yn gyfarwydd â pholisïau sy'n eu galluogi i roi gwybod am unrhyw bryderon ac maent yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny;
- Mae contractwyr yn deall pwysigrwydd sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern yn digwydd o fewn eu cadwyn gyflenwi a chanlyniadau peidio â chymryd camau effeithiol.

7.5 I gefnogi hyn, byddwn yn parhau i ddefnyddio'r KPIs canlynol ar gyfer y flwyddyn nesaf:

- Asesu risg pob contract aur, arian ac efydd newydd o fewn 3 mis i ddechrau'r contract;
- Mae 100% o gyflenwyr yn cwblhau MSAT lle ystyrir ei fod yn angenrheidiol;
- Mae 100% o arbenigwyr masnachol yn cwblhau e-ddysgu a Phrawf Caffael a Chyflenwi Moesegol CIPS yn llwyddiannus.

# 8. Cymeradwyaeth

8.1 Rydym yn gwneud y datganiad hwn yn wirfoddol ar y ffurf a nodir yn adran 54 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Cymeradwywyd y datganiad hwn gan Fwrdd Ofcom ar 16 Gorffennaf 2025 ac mae wedi'i lofnodi gan Melanie Dawes, Prif Weithredwr Ofcom ar ran Bwrdd Ofcom.

Y Fonesig Melanie Dawes

Prif Weithredwr